**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**
**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025**

Cystadleuaeth 82 – Côr Cerdd Dant Bl. 6 ac iau

**Fesul Tipyn, Mererid Hopwood**

Fesul edau mae creu brethyn,
fesul pwyth mae creu dilledyn,
fesul gair mae adrodd stori,
fesul gweithred daw gwell 'fory.

Fesul dyfal donc mae torri'r
mwyaf oll o blith y meini,
fesul cam mae mentro'r siwrnai,
fesul dau daw criw yn fintai.

Ac fesul un cawn ddatod rhwymau
pob annhegwch, datod pwythau,
datod cloeon, datod ffiniau,
nes bod pawb drwy'r byd yn ffrindiau.

Felly pan ddaw problem ddyrys,
un sy'n anodd iawn i'w datrys,
cofia'r gân a chwilia'r nodyn,
a dwed yn dawel: … 'fesul tipyn'.